| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | **Pwyllgor Gweithredol** |
| Dyddiad y cyfarfod: | **Dydd Mercher 2 Mawrth 2022** |
| Pwnc yr Adroddiad: | **Drafft Adroddiad Ymgynghori Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd Blaenau Gwent** |
| Deiliad Portffolio: | **Portffolio Addysg a Dysgu – Cyng. Joanne Collins** |
| Cyflwynir yr Adroddiad gan: | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg – Lynn Phillips**<br>**Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes – Claire Gardner** |

| Llwybr Adrodd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth** | **Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol** | **Deiliad Portffolio/ Cadeirydd** | **Pwyllgor Archwilio** | **Pwyllgor Gwas. Democrataidd** | **Pwyllgor Craffu** | **Pwyllgor Gweithredol** | **Cyngor** | **Arall (noder)** |
| 11.02.22 | 14.02.22 | 15.02.22 | | | | 2.03.22 | | |

1. **Diben yr Adroddiad**
Diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol o ddrafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd Blaenau Gwent, gan roi barn, sylwadau ac ymatebion yn unol â'r broses ymgynghori.

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Diben y cynllun hwn yw nodi dull gweithredu strategol a chyfeiriad y Cyngor ar gyfer datblygu a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg.

2.2 **Cynllun 10-mlynedd Blaenau Gwent**
Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cyflym o gynlluniau arfaethedig awdurdodau lleol. Cydnabu'r adolygiad yr angen am newid, nid yn unig yn nhermau uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith ddeddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd yr adolygiad angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau, ynghyd â newid sylweddol yn nulliau gweithredu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ynghylch cynllunio. Fel canlyniad, adolygodd Llywodraeth Cymru y fframwaith ddeddfwriaethol yn gysylltiedig gyda'r WESP, gyda'r ffocws allweddol ar greu fframwaith sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau strategol hirdymor.

2.3 Cyn pandemig COVID-19, roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno drafft cyntaf eu cynllun 10-mlynedd i Weinidogion Cymru erbyn 31 Ionawr 2021; fodd bynnag, oherwydd y pandemig a'r gofynion ymateb argyfwng, cafodd yr amserlen cyflwyno ei diweddaru. Yn dilyn y cyfnod drafftio a'r ymgynghoriad dilynol, cyflwynwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ynghyd â drafft ganllawiau ar 5 Rhagfyr 2019 a daethant i rym ar 1 Ionawr 2020. Roedd gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno drafft cyntaf eu cynllun deng mlynedd i Weinidogion Cymru ar 31 Ionawr 2022, gyda'r cynllun i fod yn weithredol o fis Medi 2022. Bydd WESP cyfredol Llywodraeth Cymru yn parhau mewn grym

tan y diwrnod hwnnw.

2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynlluniau 10-mlynedd awdurdodau lleol gynnwys y dilynol:

- Gweledigaeth glir a chryno yn seiliedig ar y targed a gytunwyd;
- Proffil addysg lleol (nifer dysgwyr oedran ysgol, nifer yr ysgolion ym mhob categori, a nifer y dysgwyr o fewn pob categori ysgol);
- Data allweddol ar gyfer pob deilliant (llinell sylfaen bresennol ac amcanestyniadau)
- Unrhyw gynlluniau neu ffactorau lefel uchel sy'n effeithio ar addysg yn y sir;
- Nodau ac amcanion clir dan y 7 deilliant;
- Cysylltiad clir rhwng sut mae pob agwedd o'r cynllun yn cyfrannu at y weledigaeth a'r prif darged; a
- Chysylltiad clir rhwng y cynllun a strategaethau a meysydd polisi perthnasol eraill awdurdodau lleol.

2.5 Gweledigaeth Cyngor Blaenau Gwent ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yw:
**'**'*Adeiladu ar y cynnydd cryf a wnaed hyd yma drwy greu system addysg gynaliadwy sy'n cynyddu'r ddarpariaeth, y galw a'r defnydd o'r Gymraeg; creu dinasyddion medrus ac wedi eu grymuso sy'n falch i fyw a gweithio o fewn a hefyd tu allan i Gymru'.*
.

2.6 Nod strategol hyn fydd creu**:**
*Cymuned sy'n cofleidio'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn hyderus a gyda balchder.*

2.7 Byddwn yn anelu i gyflawni ein gweledigaeth drwy hyrwyddo, datblygu a chyfoethogi darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg. Gwnawn hynny drwy gydweithio'n agos gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg, ynghyd â phartneriaid strategol allweddol eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill. Mae ein hamcanion strategol yn cynnwys:

- Codi proffil addysg Gymraeg ynghyd â manteision bod yn ddwyieithog;
- Creu sefydliadau dysgu ansawdd uchel ffyniannus sy'n cefnogi ymgysylltu effeithlon rhwng disgyblion, staff, y gymuned a phartneriaid;
- Cefnogi integreiddio gwasanaethau a chreu profiad cynnwys trochi ar gyfer dysgwyr;
- Sicrhau gwella gwaith rhwng ysgolion a phartneriaeth, gan hwyluso defnydd a datblygiad ehangach o'r Gymraeg;
- Creu gweithlu medrus a chynaliadwy, sy'n ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- Sicrhau amgylcheddau addysgu a dysgu cynhwysol a chyfleoedd i bob dysgwr; a
- Gwella cyfleoedd dilyniant drwy adolygu a gweithredu cwricwlwm sydd wedi ei alinio'n gadarn i addysg bellach ac addysg uwch.

2.8 Bydd y Cyngor yn anelu i gyflawni'r deilliannau dilynol a nodir gan Lywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu taith addysg y dysgwr ac sy'n gydnaws gyda meysydd polisi Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth

Genedlaethol:

- Deilliant 1 – Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 3 – Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
- Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau gwahanol yn yr ysgol.
- Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Deilliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

2.9 Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth ac amcanion a nodir uchod, mae Cyngor Blaenau Gwent yn ymroddedig i weithio tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, i gynyddu cohort Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o ddisgyblion. O gymharu gyda data llinell sylfaen 2019/20 a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn yn gyfartal â 10% (cynnydd o 6 pwynt canran) yng nghyfanswm y cohort Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.

2.10 Sefydlodd y tîm Trawsnewid Addysg gynllun/strategaeth ymgysylltu i sicrhau fod rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn cyfrannu'n effeithlon at ac yn llywio datblygiad y cynllun 10-mlynedd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu ac adolygu map rhanddeiliaid ac ymgysylltu yn rheolaidd
- Cynnal sesiynau ystyried gydag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg a phartneriaid allweddol, gyda'r nod o adolygu datblygiad a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent (2017-2020) yn cynnwys gwerthusiad o: deiliannau, llwyddiannau, targedau, rhwystrau, heriau, cyfleoedd dilyniant, partneriaid/rhanddeiliaid a data
- Sefydlu is-grŵp i'r Fforwm i gytuno ar amserlen a dull llunio ac adolygu'r cynllun 10-mlynedd, gan hefyd fonitro cynnydd yn gysylltiedig â'i ddatblygu
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos drwy Grŵp Cynllunio Rhanbarthol y Fforwm Addysg Gymraeg a Lleoedd Ysgol a Galw Ysgolion i sicrhau aliniad gan hefyd yn dynodi a manteisio ar gyfleoedd.

2.11 Gan weithio'n agos gyda Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill e.e. Iechyd ac Awdurdodau cyfagos, fe wnaeth y tîm Trawsnewid Addysg gynhyrchu drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd. Datblygwyd y ddogfen yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth y tîm wedyn ddechrau proses ymgynghori ffurfiol, lle cyhoeddwyd y ddogfen i'r holl ymgyngoreion a ddynodwyd o fewn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol

Cymraeg mewn Addysg, oedd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Lluniwyd cynllun Cyfathrebu, oedd yn cynnwys Cyfathrebu Corfforaethol yn hyrwyddo'r ymgynghoriad yn rheolaidd drwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac Addysg yn gwneud hynny drwy ysgolion a phartneriaid allweddol. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Gwener 5 Tachwedd 2021 a daeth i ben ddydd Llun 3 Ionawr 2022.

2.12 **Canlyniad yr Ymgynghoriad**
Roedd canlyniad y prosesau ymgynghori yn dangos yr ymgysylltu effeithlon gan y Fforwm Addysg Gymraeg a hefyd y tîm Trawsnewid Addysg, wrth sicrhau fod barn rhanddeiliaid yn cael eu dangos a'u cynnwys yn y drafft terfynol. Yn ystod y broses ymgynghori 8-wythnos:
- Derbyniwyd 6 ymateb ysgrifenedig, yn cynnwys un hwyr (mwy o wybodaeth yn **Atodiad 1)**
- 6 ymateb i'r arolwg, gyda 5 ohonynt yn gryf o blaid y cynllun (mwy o wybodaeth yn **Atodiad 2).**

2.13 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma, gan hefyd gydnabod ymrwymiad y Cyngor yn unol â datbglygiad a thwf Addysg Gymraeg a hefyd yr iaith Gymraeg. Cafodd pob ymateb eu hystyried, yn cynnwys meysydd lle awgrymodd ymgyngoreion y gellid cryfhau'r drafft gynllun, a chafodd y ddogfen ei diweddaru yn unol â hynny (gweler **Atodiad 3 –** gydag ychwanegiadau yn dilyn yr ymgynghoriad mewn coch). Mae Addysg, ynghyd â'r Fforwm Addysg Gymraeg, hefyd yn bwriadu rhoi ystyriaeth i'r sylwadsau yn unol â datblygu cynllun cyflenwi'r Fforwrwm.

2.14 Cyflwynwyd y ddrafft ddogfen ddydd Ll;un 31 Mawrth i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol. Cyflwynir y fersiwn terfynol ym mis Mawrth ar ôl i'r Pwyllgor Gweithredol ei hystyried.

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 **Opsiwn 1:** Y Pwyllgor Gweithredol yn derbyn y drafft WESP 10-mlynedd; neu

3.2 **Opsiwn 2:** Y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried sylwadau a/neu ddiwygiadau i'r WESP 10-mlynedd.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

4.1 Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gynhyrchu dogfen WESP yn unol ag Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. I gael mwy o wybodaeth, gweler y cyd-destun strategol a nodir yn y cynllun (Tudalen 3 a 4 **Atodiad 1).**

4.2 Mae'r WESP yn ganolog wrth sicrhau mynediad parhaus i a datblygiad y Gymraeg yn unol gyda nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant Blaenau Gwent gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant, gyda 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un ohonynt. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at y nodau llesiant. Mae gan y broses ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg hefyd sail statudol dan Adran 84 Deddf 2013.

5. **Goblygiadau pob Opsiwn**

5.1 **Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a thymor hir)**

Yn unol â gweithrediad effeithlon WESP Blaenau Gwent, byddwn yn anelu i gyflwyno cyfres o brosiectau i hybu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Un cynnig o'r fath yw'r ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle y bwriedir ei gweithredu o dymor yr Hydref 2023. Cafodd cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn (ar gyfradd ymyriad o 100%) ei sicrhau drwy Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi cymeradwyo'r cyllid refeniw i gefnogi gweithrediad.

Ceisir cyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau'r dyfodol drwy Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a/neu Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd hefyd oblygiadau refeniw ar gyfer cynigion prosiect y dyfodol. Byddwn yn gwneud cais am gyllid refeniw tymor byr ar gyfer y cynigion hyn drwy Lywodraeth Cymru. Os na fydd cyllid refeniw ar gael, caiff unrhyw gostau refeniw ychwanegol (tymor byr a thymor hir) eu sicrhau o Gyllideb Ysgolion Unigol. Rhoddir adroddiad ar gynigion drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn unol â gwahoddiadau ar gyfer cyflwyno pob achos busnes.

5.2 **Risg yn cynnwys camau lliniaru**

Mae'r goblygiadau dilynol yn berthnasol i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:

- Methiant i gyflawni'r deilliannau a thargedau a sefydlwyd o fewn y cynllun – caiff hyn ei liniaru gan y trefniadau monitro helaeth sydd ar waith. Mae'r tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu cynnydd yn fisol, a rhoddir adroddiad i'r Fforwm Addysg Gymraeg bob tymor, aiff drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor a rhoddir adroddiad yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Cydymffurfiaeth gyda dyletswydd statudol a goblygiadau deddfwriaethol – caiff hyn ei reoli yn unol ag adolygiad polisi ac arweiniad a datblygiadau ynghyd ag adnewyddu'r WESP ac adroddiadau blynyddol.
- Materion cynaliadwyedd o fewn y stad ysgolion yng nghyswllt addysg cyfrwng Cymraeg – caiff hyn ei reoli a'i liniaru gan ymgyrchoedd hyrwyddo blynyddol, asesiadau seiliedig ar alw, capasiti ysgolion ac amcanestyniadau. Mae'r model egin a gynigir hefyd yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â galw cudd, gan hybu twf pellach.

5.3 **Cyfreithiol**

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol yn gysylltiedig gyda'r adroddiad hwn.

5.4 **Adnoddau Dynol**

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol yn gysylltiedig gyda'r adroddiad hwn.

6. **Tystiolaeth Gefnogi**

6.1 **Gwybodaeth Perfformiad a Data**

Fe adolygodd y tîm Trawsnewid Addysg y cynnydd yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol (2017-2020), ac adroddwyd canlyniad hynny drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020. Roedd hunanasesiad 2019/20 Blaenau Gwent yn seiliedig ar gynnydd allweddol yn unol â phob maes blaenoriaeth. Roedd yr hunanasesiad yn Oren, gyda'r gyfradd cwblhau ar gynllun gweithredu 2019/20 fel sy'n dilyn:

- 84% (neu 49 cam gweithredu) wedi eu cwblhau;
- 7% (neu 4 cam gweithredu) ar y gweill; a
- 9% (5 cam gweithredu) yn cael eu datblygu.

6.2 **Canlyniad a ddisgwylir i'r cyhoedd**

Mae'r WESP yn anelu i sicrhau, hwyluso, datblygu a gwella addysg Gymraeg, ynghyd â mynediad i ddarpariaeth gysylltiedig yn lleol.

6.3 **Ymgyfraniad (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogiad)**

Mae anghenion ac ymgysylltu rhanddeiliaid a defnyddwyr yn hollbwysig, ac fel ffocws allweddol o'r WESP, ei weithredu a'i fonitro. Mae'r cynllun yn destun ymgynghoriad yn ystod y cyfnod cynhyrchu a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Yn ychwanegol, defnyddir prosesau ymgynghori cyhoeddus a phartner i lywio datblygu, cynnydd a dysgu yn gysylltiedig â chyflenwi'r cynllun.

6.4 **Meddwl am yr hirdymor (blaengynllunio)**

Mae gan y WESP ddull gweithredu strategol ac mae'n sylfaen i gyfeiriad a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg ym Mlaenau Gwent dros y 10 mlynedd nesaf.

6.5 **Ffocws ataliol**

Nod WESP yw sefydlu targedau clir, llunio, hysbysu a gwella cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg. Mae'r cynllun hefyd yn mynd i'r afael â materion a bylchau sy'n bodoli, gan wella darpariaeth, ymgysylltu a chydlyniaeth.

6.6 **Cydweithio/Gweithio Partneriaeth**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent angen dull cydweithio o ran datblygu, gweithredu, monitro a chynnydd. Caiff hyn ei gynnal drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg sydd â chynrychiolaeth eang o sefydliadau partner a grwpiau rhanddeiliaid, a chaiff ei warantu drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor ac adroddiadau i Lywodraeth Cymru.

6.7 **Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent wedi'i alinio gyda gofal plant, addysg a chwarae blynyddoedd cynnar; cynllunio lleoedd disgyblion, trefniadaeth ysgolion, Ysgolion y 21ain Ganrif a gwaith y

Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amgylchedd ac Adfywio. Mae integreiddio gwasanaeth yn hanfodol i sicrhau gweithrediad effeithlon tra hefyd yn sicrhau mynediad priodol i addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth gysylltiedig. Caiff y cynllun ei fonitro gan y Fforwm Addysg Gymraeg ac mae hefyd yn bwydo i fforymau allweddol eraill h.y. Derbyn i Ysgolion, Bwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac yn y blaen.

6.8 **Datgarboneiddio a Gostwng Allyriadau Carbon**
Caiff unrhyw waith ffisegol a gynlluniwyd ac a gynhaliwyd o fewn gosodiadau addysg eu cynllunio er mwyn rhoi ystyriaeth i ddatgarboneiddio a gostwng allyriadau carbon.

6.8.1 Ar 2 Tachwedd 2021 cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, y bydd angen i bob adeilad ysgol a choleg newydd, gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau ehangu, gyrraedd targedau Carbon Sero Net o 1 Ionawr 2022. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ac wedi dechrau gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio rhoi'r agenda yma ar waith.

6.9a **Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**
Cynhelir Asesiad o'r Effaith Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar ddrafft terfynol y cynllun cyn ei gymeradwyo. Ar ôl cynnal asesiad o'r drafft, mae'r effaith gyffredinol yn niwtral. Mae WESP yn anelu i wella mynediad cyfartal i addysg Gymraeg.

6.9b. **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Cynhaliwyd Asesiad Sgrinio Effaith ar Gydraddoldeb yn unol gyda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a benderfynodd nad oes unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Cynhelir sgrinio ac asesiadau effaith hefyd yn unol â phob prosiect yn gysylltiedig gyda'r WESP.

7. **Trefniadau Monitro**

7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl diweddariad blynyddol ar y cynnydd ar y WESP. Felly, mae'r tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu ac yn monitro'r WESP yn fisol, gan roi adroddiadau bob tymor i'r Fforwm Addysg Gymraeg ac adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, aiff adroddiadau datblygu a chynnydd y Fforwm Addysg Gymraeg drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae'r WESP hefyd yn ffocws allweddol o Fwrdd a Fforwm Derbyn Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

**Dogfennau Cefndir/Dolenni Electronig**

**Atodiad 1 – Ymatebion Ysgrifenedig**

**Atodiad 2 – Ymatebion i'r Arolwg**

**Atodiad 3 - Drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent**